

Rhif: WG22841



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad ar Gynllun Adfer Natur Cymru

Rhagfyr 2014

Y Gangen Bioamrywiaeth a Chadwraeth Natur
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

Ebost: bioamrywiaeth@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 062 2285

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
1. Cyflwyniad	4
2. Negeseuon Allweddol	5
3. Ymatebion i Gwestiynau 1 – 12	8
4. Camau Nesaf	19
Atodiad - Rhestr Lawn o'r Ymatebwyr	20

Crynodeb Gweithredol

Bydd Cynllun Adfer Natur Cymru yn amlinellu'r uchelgais i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, y nodau y byddwn yn eu gweithredu gyflawni'r uchelgais honno a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r nodau hynny.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar Gynllun Adfer Natur Cymru rhwng 10 Medi a 3 Rhagfyr 2014 a cheisiodd farn ar ein huchelgais, ein nodau a'n camau gweithredu arfaethedig, a gofynnwyd sut y gallem gyflawni Cynllun Adfer Natur Cymru gyda'n gilydd yn y ffordd orau.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried deuddeg cwestiwn a rhoddwyd y cyfle iddynt hefyd roi sylwadau ar faterion cysylltiedig nad oedd y ddogfen ymgynghori, o bosibl, wedi mynd i'r afael â hwy. Cafwyd 131 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd bron pob un o'r ymatebion gan sefydliadau, grwpiau ac unigolion a oedd naill ai'n cynrychioli sector yr amgylchedd neu'n ymwneud yn uniongyrchol â'r sector hwnnw.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'n huchelgais arfaethedig i 'wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau manteision parhaol i gymdeithas drwy wella cadernid ein hecosystemau, drwy ganolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol yn effeithiol.' Er gwaethaf y gefnogaeth gyffredinol ar gyfer y cyfeiriad, roedd pryderon na fyddai rheoli adnoddau naturiol yn cyflawni'r uchelgais ar ei ben ei hun.

Codwyd pryderon ynghylch sut mae Cynllun Adfer Natur Cymru yn ymwneud â chyflwyno Bil yr Amgylchedd a pholisïau a rhaglenni eraill.

Hoffai'r ymatebwyr weld cydnabyddiaeth o werth cynhenid natur ac nid dim ond manteision ariannol ac economaidd gwarchod bioamrywiaeth.

Mae'n bwysig nodi nad oedd y darpariaethau arfaethedig manwl a gynhwysir ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) ar gael i'r cyhoedd ar adeg yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys, er enghraifft, sut y mae'r Bil yn benodol yn cynnwys darpariaeth ar werth cynhenid a sut y mae bioamrywiaeth yn cael ei datblygu yng Nghymru drwy ofynion statudol newydd fel rhan o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Gwnaeth yr ymatebwyr hefyd fynegi barn bod angen parhau i ganolbwyntio ar gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yn lleol. Roedd eraill o'r farn nad yw Cynllun Adfer Natur Cymru yn mynd ati'n ddigonol i amlinellu dull o warchod a rheoli safleoedd pwysig, na mesurau cadwraeth ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau pwysig.

Mae mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn pryderu na fydd targedau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'r UE yn cael eu cyflawni erbyn 2020 a bod angen i unrhyw gynlluniau gweithredu gwmpasu amserlen hwy.

Cynigiodd yr ymatebwyr fod yn rhaid i'r cynllun diwygiedig gynnwys cynllun gweithredu wedi'i ariannu'n llawn gyda thargedau, camau gweithredu a monitro SMART wedi'u mynegi gyda therminoleg glir.

Erbyn diwedd 2015 byddwn yn cyhoeddi:

1. Datganiad Sefyllfa ar gyfer Bioamrywiaeth yng Nghymru, gan ddatgan ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â'n hymrwymadau bioamrywiaeth, adnoddau a pholisi, ac egluro'r berthynas rhwng y Cynllun Adfer Natur a pholisïau a rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru.
2. Cynllun Gweithredu, camau gweithredu â blaenoriaeth o ran rhaglenni ar gyfer adfer natur, i ddechrau ym meysydd gwella tystiolaeth; cynyddu ymgysylltu a chymorth; adfer cynefinoedd; gweithio gydag amaethyddiaeth; a threfniadau llywodraethu.

1. Cyflwyniad

Bydd Cynllun Adfer Natur Cymru yn amlinellu'r uchelgais i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, y nodau y byddwn yn eu gweithredu i gyflawni'r uchelgais honno a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r nodau hynny.

Fel rhan o ddull newydd Llywodraeth Cymru i alluogi rheoli mwy cydgysylltiedig a rhagweithiol o ran adnoddau naturiol Cymru, nododd yr ymgynghoriad hwn gyfeiriad ar gyfer camau gweithredu ar fioamrywiaeth yng Nghymru, yng nghyd-destun ein hymrwymiad i weithredu dull integredig o Reoli Adnoddau Naturiol, a chyflawni ein hymrwymadau rhyngwladol o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol dros y pum mlynedd nesaf.

Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar ein huchelgais, ein nodau a'n camau gweithredu arfaethedig, a gofynnodd sut y gallem gyflawni Cynllun Adfer Natur Cymru gyda'n gilydd yn y ffordd orau.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 10 Medi 2014 ac roedd yn agored ar gyfer ymatebion tan 3 Rhagfyr 2014. Roedd 12 o gwestiynau yn y ddogfen ymgynghori. Cafwyd yr ymatebion drwy e-bost a thrwy'r post.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb cynrychiadol o'r ymatebion ac nid yw'n gofnod trylwyr o'r holl faterion a godwyd. Bydd yr ymatebion llawn yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn www.cymru.gov.uk

Cafwyd cyfanswm o 131 o ymatebion. O'r rhain, atebodd 47% y cwestiynau a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Nid oedd y 53% arall wedi ateb cwestiynau'r ymgynghoriad yn uniongyrchol. Cyflwynwyd ymatebion gan unigolion a sefydliadau.

Tabl 1: Dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl y math o ymatebwr

Unigolion	44%
Sector Cyhoeddus	13%
Sector preifat	7%
Trydydd Sector	27%
Partneriaethau Bioamrywiaeth	9%

Daeth mwyafrif y 131 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau yng Nghymru; dim ond 8% o'r rhai a ymatebodd oedd o'r tu allan i Gymru.

Cafwyd dau ymateb cydgysylltiedig gan RSPB Cymru ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru. Roedd yn union hanner yr ymatebion gan unigolion o ganlyniad uniongyrchol i'r ymgyrchoedd hyn.

2. Negeseuon Allweddol

Cefnogaeth ar gyfer y cyfeiriad cyffredinol

Mae Rheoli Adnoddau Naturiol yn cael ei gefnogi mewn egwyddor; fodd bynnag, teimlwyd yn gryf na fydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn ddigon ar ei ben ei hun. Er enghraifft:

“Er ein bod yn cefnogi'r cysyniadau o wella cadernid a mynd i'r afael â'r ecosystem gyfan, mae angen inni fod yn wylidwrus o honni mai rheoli adnoddau naturiol yw'r ateb yn y pen draw. Mae gan gadwraeth 'draddodiadol' sy'n canolbwyntio ar rywogaethau a chynefinoedd hanes o lwyddo a bydd ei hangen i ategu rheoli adnoddau naturiol”. (Ymddiriedolaeth Natur Gwent)

Yn enwedig, o ystyried y pwyslais ar gyflawni drwy weithredu rheoli adnoddau naturiol yn effeithiol, roedd pryder ynghylch sut y byddai hyn yn gweithio mewn gwirionedd o ystyried y wybodaeth a oedd ar gael ar yr adeg honno.

Terminoleg

Rhoddodd llawer o ymatebwyr sylwadau ar yr iaith a ddefnyddir yn y ddogfen (mae'r rhain wedi'u cyffredinoli a heb eu priodoli i ymatebion penodol):

“Mae'r iaith yn ymddangos yn rhy gymhleth i'r cyhoedd; byddai iaith gliriach a mwy cyson yn fuddiol i Gynllun Adfer Natur Cymru.”

“Er mwyn i gymunedau gael eu cynnwys a bod yn frwdfrydig, mae'n gwbl hanfodol bod amrywiaeth o well terminoleg ac iaith yn cael ei ddatblygu a'i hyrwyddo.”

“Mae angen diffinio'r termau 'gwella cadernid' a 'system integredig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol', ac nid ydynt yn cael eu deall yn glir o hyd o ran eu canlyniadau posibl i fioamrywiaeth.”

Dylid nodi bod diffiniadau ac esboniad pellach o'r derminoleg a ddefnyddir ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol bellach wedi'u darparu ym Mil yr Amgylchedd a dogfennau ategol

Camau gweithredu

Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn cytuno nad oedd y ddogfen yn darllen fel 'cynllun' ond yn fwy fel dogfen strategol ac y dylai'r ddogfen ddiwygiedig gynnwys cynllun gweithredu wedi ei ariannu'n llawn gyda thargedau a gweithredoedd SMART. Ar ei ffurf bresennol, mynegodd yr ymatebwyr eu pryder ynghylch y diffyg manylion o ran sut y mae Cynllun Adfer Natur Cymru yn mynd i gael ei weithredu.

Deddfwriaeth

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo nad yw'r ddyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn ddigonol a bod angen ei chryfhau

ym Mil yr Amgylchedd (Cymru). Roedd cynnwys targedau ym Mil yr Amgylchedd hefyd yn thema gyson:

“Rhaid i Fil yr Amgylchedd (Cymru) ymgorffori mewn cyfraith dargedau cyfreithiol gyfrwymol hirdymor i wrthdroi'r dirywiad mewn Natur. Mae angen i'r gyfraith hefyd ddatgan mai dyletswydd pob corff cyhoeddus yw “hyrwyddo cadwraeth a gwella bioamrywiaeth” yn ei weithgareddau”. (RSPB Cymru)

Dylid nodi bod Bil yr Amgylchedd yn cynnig diddymu a chryfhau adran 40 Dyletswydd Bioamrywiaeth Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 drwy gyflwyno dyletswydd bioamrywiaeth a cadernid ecosystemau i gyrrff cyhoeddus.

Cyllid a monitro

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn pryderu na fydd Cynllun Adfer Natur Cymru yn llwyddo i gyflawni ei dargedau a'i ganlyniadau heb y cyllid angenrheidiol. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod yn rhaid iddo fod yn gynllun wedi ei ariannu'n llawn gyda mesurau monitro.

Amserlen

Mae mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn pryderu na fydd targedau 2020 yr UE yn cael eu cyflawni a bod angen i unrhyw gynlluniau gweithredu fod yn rhai hirdymor er mwyn gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Gweithio cydgysylltiedig

Mae'r ymatebwyr yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i ymgorffori'r dull ecosystemau ar draws y Llywodraeth.

Gwerth cynhenid natur

Roedd rhai ymatebwyr (gan gynnwys sefydliadau) yn teimlo bod Cynllun Adfer Natur Cymru yn canolbwyntio'n ormodol ar farn iwtilitaraidd o ran bywyd gwylt a'r amgylchedd naturiol heb ganolbwyntio digon ar werth cynhenid natur.

Rhywogaethau a chynefinoedd

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod angen parhau i ganolbwyntio ar gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yn lleol. Roedd eraill o'r farn nad yw Cynllun Adfer Natur Cymru yn rhoi amlinelliad digonol o ddull o warchod a rheoli safleoedd pwysig, na mesurau cadwraeth ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau pwysig. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

“Dylai cyfeiriad clir at gadwraeth (gwarchod, adfer a gwella) cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth (gan gynnwys cymunedau ecolegol/casgliadau o rywogaethau) gael ei gynnwys yn y Cynllun terfynol i adfer natur yng Nghymru.” (Grŵp Arbenigwyr ar Rhywogaethau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru)

“Nid ydym yn credu bod angen adolygiad sylfaenol ar rôl safleoedd a rhywogaethau dynodedig. Fodd bynnag, byddem yn cefnogi adolygiad sy'n ystyried sut y gall safleoedd a rhywogaethau dynodedig gael eu hintegreiddio i'r dull rheoli adnoddau naturiol. Credwn y dylai safleoedd dynodedig barhau i ganolbwyntio ar gadwraeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau pwysig y maent yn eu diogelu. Mae safleoedd wedi'u dynodi yn ffynhonnell enfawr o fioamrywiaeth ac er y gallent gael eu rheoli'n well mewn rhai achosion nid ydym yn teimlo bod angen i'w rôl gael ei hadolygu. Yn hytrach, dylem fod yn eu cydnabod fel gemau o fewn y dirwedd ac archwilio sut, drwy greu byfferau a gwell cysylltedd y gallwn wneud i'r dirwedd a'r ecosystemau ehangach wneud y gwaith a gynhelir ynddynt greu manteision y tu hwnt i'w ffiniau.”
(Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)

3. Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1 - A ydych yn cytuno â'r ffocws yn yr uchelgais ar fynd i'r afael â chadernid sylfaenol ein hecosystemau a nodi a sicrhau manteision i gymdeithas? Os nad ydych, beth arall y mae angen inni ei ystyried?

Roedd cefnogaeth ar draws amrywiaeth eang o randdeiliaid i'r canolbwynt ar fynd i'r afael â chadernid sylfaenol ein hecosystemau a nodi a sicrhau manteision i gymdeithas. Dywedodd y Sefydliad Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol Siartredig fod yr *"uchelgais arfaethedig i 'wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau manteision parhaol i gymdeithas drwy wella cadernid ein hecosystemau, drwy ganolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol yn effeithiol i'w groesawu'n fawr"*.

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn cefnogi'r *"uchelgais o greu ecosystemau cadarn, cynaliadwy sy'n cynorthwyo cynefinoedd amrywiol ledled Cymru. Mae'r Undeb yn cydnabod y byddai cynyddu bioamrywiaeth ar lefel rhywogaethau a chynefinoedd yn cyfrannu at ddyheadau ehangach amcan Llywodraeth Cymru o ddatblygu economi gadarn, rheoli newid yn yr hinsawdd a bodloni ei hymrwymiaadau o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol"*.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cytuno bod *"gwella cadernid yn elfen bwysig wrth atal colli rhagor o fioamrywiaeth a bod rheoli adnoddau i'w galluogi i wneud hynny heb bwysau negyddol yn sylfaenol i'r gymdeithas yn ogystal â'r economi"*.

Nododd yr ymatebwyr mai'r ffordd orau o *'wella cadernid ein hecosystemau'* yw drwy gymryd camau gweithredu fel eu hatal rhag cael eu niweidio a'u gwneud yn dameidiog, gan eu gwarchod rhag datblygu neu aflonyddu, neu hyrwyddo cyfundrefnau rheoli priodol a rhoi adnoddau iddynt.

Yn eu hymateb, dywedodd Parciau Cenedlaethol Cymru fod *"Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn feysydd cyflawni allweddol ar gyfer yr uchelgais ac ar gyfer y dull ecosystemau, gyda phartneriaethau, dulliau a chamau gweithredu eisoes yn eu lle"*.

Dyweddodd llawer o'r ymatebwyr fod angen gweithredu ar unwaith ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd ac na fydd Cynllun Adfer Natur Cymru yn llwyddo os caniateir i gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth gael eu colli. Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaethau rhyngwladol ar nifer o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau hyn. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r uchelgais gyfateb yn well i'r Ddyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a thargedau 2020 y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn teimlo y bydd angen i'r uchelgais gael ei ategu gan weithredoedd, targedau ac amserlenni manwl er mwyn cyflawni nodau pennawd fel y targedau Aichi ac y dylai'r uchelgais gael ei gysylltu'n gliriach â'r ymrwymiaadau Byd-eang ac ymrwymiaadau'r UE. Methodd Ewrop yn gyffredinol â chyflawni targedau bioamrywiaeth 2010 ac roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylai Cynllun Adfer Natur Cymru nodi'r rhesymau dros y methiant hwn, sut y maent yn effeithio ar Gymru a sut yr eir i'r afael â hwy.

Mae'r uchelgais cyffredinol o gyflawni cadernid ecosystemau drwy ganolbwyntio ar Reoli Adnoddau Naturiol yn ganlyniad dymunol ar gyfer yr amgylchedd eang ond roedd llawer yn teimlo na fydd hyn yn ddigon ar ei ben ei hun. Roedd rhai'n croesawu uchelgais Llywodraeth Cymru i ddod yn fwy rhagweithiol tuag at adfer natur, gan arwain at ymrwymiad i ymgorffori'r dull ecosystemau ar draws y Llywodraeth a dull system gyfan o ran cadwraeth. At hynny, byddai'n ddefnyddiol nodi lle y bydd Cynllun Adfer Natur Cymru yn eistedd mewn perthynas â chynlluniau strategol eraill Llywodraeth Cymru a'r ffyrdd y bydd angen i gynlluniau eraill gynorthwyo Cynllun Adfer Natur Cymru. Hefyd, gwnaeth llawer groesawu'r cynllun i hyrwydd gwerth y dull hwn i'r cyhoedd a busnesau yng Nghymru.

Roedd llawer o'r ymatebwyr (gan gynnwys llawer o sefydliadau) yn teimlo'n gryf bod Cynllun Adfer Natur Cymru yn canolbwyntio'n ormodol ar farn iwtilitaraidd o ran bywyd gwylt a'r amgylchedd naturiol heb ganolbwyntio digon ar werth cynhenid natur. Mae llawer yn teimlo y dylid gadael i natur fodoli er ei mwyn ei hun gymaint ag er budd economaidd pobl.

Gwnaeth mwyafrif helaeth yr ymatebwyr sylwadau ar y derminoleg a ddefnyddir. Gwnaed cais, er enghraifft, am eglurder a diffiniad ar gyfer: *'Dim colled net o ran bioamrywiaeth', 'gwrthdroi colli bioamrywiaeth' a 'gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth'.*

Pwysleisiodd y mwyafrif helaeth bwysigrwydd strategaeth gyllido i ategu Cynllun Adfer Natur Cymru.

Cwestiwn 2 - A yw'r datganiad uchelgais yn crynhoi'r dull newydd hwn yn llawn? Beth y gellir ei ychwanegu?

Dywedodd amrywiaeth o ymatebwyr eu bod yn croesawu'r datganiad o uchelgais yn y dull newydd hwn yn llawn a'u bod yn croesawu'r uchelgais i ddatblygu Rheoli Adnoddau Naturiol oherwydd y bydd hyn yn helpu i symud i ffwrdd o fesurau cadwraeth sy'n seiliedig ar nodweddion yn unig.

Dywedodd y Sefydliad Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol Siartredig ei fod yn *"cytuno'n llawn mai ein safleoedd dynodedig yw prif drysorau ein hamgylchedd naturiol ac mae angen iddynt fod yn greiddiol i'n dull gweithredu newydd."* Ers diwedd y 1940au mae'r rhwydwaith o SoDdGA ledled Cymru (a gweddill Prydain Fawr) wedi darparu fframwaith sylfaenol o gynefinoedd o ansawdd uchel wedi'u diogelu gyda rhywogaethau prin cysylltiedig. *Gan ddefnyddio papur John Lawton, sef Making Space for Nature, mae'r safleoedd hyn yn hanfodol i gynnal y fioamrywiaeth. Fodd bynnag, er mwyn gweithredu'n gywir mae angen iddynt fod o faint digonol ac wedi'u cysylltu'n dda ag ardaloedd eraill o gynefin lled-naturiol. Yn y cyflwr hwn gallant wedyn ddarparu adnodd bioamrywiaeth pwysig a darparu potential gwasanaeth ecosystem gwirioneddol, a chynnal cadernid naturiol yn erbyn newid yn yr hinsawdd ac effeithiau naturiol ac effeithiau o waith dyn eraill."*

Dywedodd eraill er eu bod yn cefnogi'r cysyniadau o wella cadernid a mynd i'r afael â'r ecosystem gyfan, mae angen inni fod yn wylidwyrus o honni mai rheoli adnoddau naturiol yw'r ateb yn y pen draw. Bydd angen cadwraeth 'draddodiadol'

sy'n canolbwyntio ar rywogaethau a chynefinoedd ac sydd â hanes o lwyddo i ategu rheoli adnoddau naturiol.

Unwaith eto, pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr fod bioamrywiaeth yn golygu mwy i gymdeithas na dim ond nwydd i'w fasnachu ac y byddai cydnabod gwerth cynhenid ac annefnydd bioamrywiaeth yn adlewyrchu uchelgeisiau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn well. Dylid pwysleisio rôl hanfodol bioamrywiaeth yn gryfach.

Dywedodd Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBREC) y dylai'r strategaeth *"gynnwys nod tymor byrrach o wrthdroi'r dirywiad a nod tymor hwy wedi'i ddatgan o wella bioamrywiaeth, nid dim ond drwy feithrin gwella ecosystemau, ond drwy wella iechyd poblogaethau o fflora a ffawna brodorol"*.

Awgrymodd llawer y dylai'r datganiad uchelgais adlewyrchu'r rhwymedigaethau rhyngwladol a rhwymedigaethau'r UE ar fioamrywiaeth ac y dylai fynd y tu hwnt i 2020 ac ymestyn hyd at 2050 fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.

Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot y *"dylai'r cynllun gynnwys datganiad sy'n cefnogi ac yn cryfhau safleoedd dynodedig"*.

Dywedodd Parciau Cenedlaethol Cymru y *"gellir gwrthdroi darnio cynefinoedd drwy uwchraddio dulliau dibynadwy, e.e., lleiniau clustogi torlannol, penrhynion ac ymylon caeau, aredig ar hyd cyfuchliniau, torri gwrychoedd ar yr adeg iawn o'r flwyddyn, tanblannu chydau, cadw caeau braenar yn ystod y gaeaf ac ati, gan weithio gyda natur ac o fewn gallu cario fferm"*.

Roedd llawer o bartneriaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol (CGBL) yn cytuno y dylai'r datganiad uchelgais gynnwys cyfeiriad at gynnwys y cyhoedd mewn cadwraeth bioamrywiaeth a dealltwriaeth ohoni. Er enghraifft, dywedodd Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro:

"Heb fwy o ddealltwriaeth a chefnogaeth y cyhoedd, bydd ymdrech cadwraeth bob amser ar y cyrion"ac "mae prif ffrydio bioamrywiaeth yn berthnasol i agweddau'r cyhoedd yn ogystal â llunio polisiau".

Argymhellodd RSPB Cymru fod *"angen i uchelgais y cynllun/strategaeth fod yn gyson ag ymrwymadau'r CAF a'r UE a bydd yn arwain at adfer natur. Gellir mynegi hyn mewn ffordd a fydd yn gyson â pholisi a rhaglenni Rheoli Adnoddau Naturiol a'u hategu"*. Adleisiwyd y sylwadau hyn gan lawer o ymatebwyr.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys NFU Cymru, bwysigrwydd cydnabod y cyfraniad y mae ffermwyr a thirfeddianwyr eisoes yn ei wneud, ac y byddant yn ei wneud, i gyflawni uchelgais Cynllun Adfer Natur Cymru. Aeth y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) ymlaen i ddweud mai'r *"bobl ar lawr gwlad y mae eu bywoliaeth yn dibynnu ar y tir sydd â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth fwyaf priodol o faterion lleol i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru"*.

Cwestiwn 3 - Ai ein nodau ni yw'r nodau cywir? Beth y gellir ei ychwanegu?

Mae'r nodau, mewn egwyddor, yn cael cefnogaeth gan lawer o ymatebwyr.

Er enghraifft, dywedodd y Sefydliad Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol Siartredig fod croeso mawr hefyd i'r *"nodau arfaethedig"* o *"adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio yn sylweddol, mynd i'r afael â ffactorau negyddol allweddol sy'n gysylltiedig â cholli bioamrywiaeth a chynyddu cysylltedd yn sylweddol, gwella'r ffordd y rheolir ein hamgylcheddau gorau a sicrhau 'dim colled net' o ran bioamrywiaeth'. Bydd cadernid ecosystemau'n dibynnu ar ffactorau amrywiol, yn enwedig cysylltedd a graddau, y mae'r ddau ohonynt wedi'u cyfaddawdu o ddifrif gan ddatblygiad trefol a thechnegau ffermio modern".*

Fodd bynnag, mynegodd llawer bobl eu pryder nad yw Cynllun Adfer Natur Cymru yn cynnwys manylion am sut y gellid cyflawni'r nodau hyn, h.y. drwy gynnwys targedau, amserlenni a chanlyniadau clir.

Er y gallwn fabwysiadu nodau ac amcanion cenedlaethol, dywedodd rhai ymatebwyr fod yn rhaid cydnabod bod yn rhaid i'r llwybr i gyflawni'r rhain fod yn hyblyg ac yn addasadwy ar gyfer tirweddau lleol. Dywedodd eraill fod angen i nodau fod yn fwy strategol, cadarn ac eglur a bod angen cyfeiriadau diamwys at gadwraeth uniongyrchol cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth.

Awgrymodd Ymddiriedolaeth Natur Gwent y dylid ychwanegu'r nodau canlynol: *"Cynyddu bioamrywiaeth mewn ardaloedd y tu allan i safleoedd gwarchodedig; Cynorthwyo adferiad rhywogaethau; Ymgorffori adferiad bioamrywiaeth yn holl adrannau'r llywodraeth ar bob lefel; cynnwys y cyhoedd mewn adfer bioamrywiaeth"*.

Roedd RSPB Cymru yn argymhell yn gryf y dylid cynnwys nod *"sy'n cwmpasu'r angen sylfaenol i warchod bioamrywiaeth gan gyfeirio'n glir at gadwraeth (amddiffyn, adfer a gwella) cynefinoedd a rhywogaethau (gan gynnwys cymunedau ecolegol/cynulladau o rywogaethau) er mwyn sicrhau y gallem weld cynnydd gwirioneddol ar gyfer adfer natur"*.

Dywedodd Ymddiriedolaeth Natur Cymru nad yw'r nodau *"mor gryf ag y dylent fod ac mae angen iddynt alluogi a chyfeirio cyflawni strategol a gweithredu ar lawr gwlad. Gellid cryfhau'r nodau presennol a'u gwneud yn SMART er mwyn eu gwneud yn fwy ystyrion"*. Mae Ymddiriedolaeth Natur Cymru yn awgrymu hefyd y *"dylai Cynllun Adfer Natur Cymru argymhell gweithredu adroddiad yr Athro Lawton yn llwyr, sy'n ei gwneud yn ofynnol i safleoedd gwarchodedig fod yn fwy, yn well ac yn fwy cysylltiedig"*.

Tynnodd NFU Cymru sylw at y rôl *"mae ffermwyr wedi'i chael wrth greu, llunio a chynnal yr amgylchedd yng Nghymru dros ganrifoedd"*. Mae NFU Cymru yn cymeradwyo egwyddor 11 y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol sy'n tynnu sylw at yr angen i ystyried pob ffurf ar wybodaeth berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth wyddonol ynghyd â gwybodaeth leol, arloesedd ac arferion.

Argymhellodd Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir Iseldir Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru y dylai nod ychwanegol gwmpasu *"dealltwriaeth, cynnwys a chyfranogiad y cyhoedd"*. Dywedodd llawer o ymatebwyr fod codi ymwybyddiaeth,

addysg a chynnwys y cyhoedd yn yr amgylchedd naturiol yn hanfodol. Cytunodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gan awgrymu nod ychwanegol i'w gynnwys: *"Dealltwriaeth, cynnwys a chyfranogiad y cyhoedd"*. Ac aeth ymlaen i ddweud *"nid oes dim yn y nodau uchod sy'n nodi'r llwybr ar gyfer ennyn brwdfrydedd, addysgu a chynnwys y cyhoedd yn yr amgylchedd naturiol. Mae'r camau a gwmpesir gan y nod hwn yn amrywio nod o gynnwys y blynyddoedd cynnar i gyllido addysg uwch. Ar lef raddedig ac ôl-raddedig, gellid cryfhau'r rôl ymchwil a monitro yn yr amgylchedd sydd eisoes yn digwydd"*.

Roedd sylwadau sy'n benodol i'n nodau arfaethedig yn cynnwys:

'Adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio yn sylweddol'

Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen egluro'r nod hwn ac y dylai gynnwys adfer, gwella a chynnal a chadw cynefinoedd ac ymestyn i gynnwys poblogaethau cynefinoedd a rhywogaethau.

'Mynd i'r afael â ffactorau negyddol allweddol colli bioamrywiaeth a chynyddu cysylltedd yn sylweddol'

Bydd yn ofynnol i ymyriadau a mecanweithiau ddarparu cysylltedd uwch ac mae angen ymdrin ag ysgogwyr allweddol eraill colli bioamrywiaeth. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen ymgorffori rhywogaethau estron goresgynnol yn y nod hwn. Dywedodd eraill fod angen mwy o bwyslais yng Nghynllun Adfer Natur Cymru ar rôl cynlluniau amaeth-amgylcheddol o ran adfer a chysylltedd rhywogaethau a chynefinoedd.

'Gwella rheoli ein hamgylcheddau ansawdd uchaf'

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen egluro a diffinio'r nod hwn. Dywedodd Parciau Cenedlaethol Cymru y gallai Cynllun Adfer Natur Cymru *"gyfeirio'n ddefnyddiol at"* waith adolygiad presennol y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur o'r 'Canllawiau ar gyfer Dewis SoDdGA [Biolegol]' sydd i'w gwblhau erbyn 2017.

'Cyflawni 'dim colled net' bioamrywiaeth'

Roedd cefnogaeth ar gyfer y nod hwn, ond eto, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen egluro a diffinio'r nod hwn.

Dywedodd Grŵp Arbenigol Rhywogaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru y *"byddai'n croesawu llunio'r polisi 'dim colled net' yn fwy uchelgeisiol i gynnwys 'enillion net' a mecanwaith cadarn i gofnodi colli bioamrywiaeth. Dylid gweld ail-greu a thrawsleoli cynefinoedd fel dewis olaf ac ni ddylid defnyddio hyn ar gyfer cynefinoedd hynafol neu gynefinoedd na ellir eu creu oherwydd eu pwysigrwydd ar gyfer bioamrywiaeth"*.

Dywedodd Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru, *"os yw 'dim colled net' yn awgrymu sefydlu system gwrthbwyso bioamrywiaeth, nid yw'n nod uchelgeisiol sy'n awgrymu bod maint bioamrywiaeth yn bwysicach nag ansawdd bioamrywiaeth"*.

Yn ei hymateb, dywedodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, "*er ein bod yn cytuno bod dim colled net bioamrywiaeth yn ddymunol, byddem yn pwysleisio bod dim colled bioamrywiaeth yn fwy dymunol*".

Rhoi fframwaith llywodraethu ar waith i gynorthwyo cyflwyno, gan weithio gyda'n gilydd ar draws sectorau ac atgyfnerthu ein tystiolaeth ar y cyd'

Dywedodd Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru fod hwn "*yn nod canmoladwy ac yn un sy'n hanfodol er mwyn i ni gael unrhyw obaith o gyflawni buddiannau gwirioneddol ar gyfer bioamrywiaeth ac amgylchedd ehangach Cymru*".

Cwestiwn 4 – A yw'r camau gweithredu arfaethedig yn briodol ac yn ddigonol?

Argymhellodd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr fod angen gwneud y camau gweithredu'n gliriach, yn gryfach ac yn fwy unol â thargedau/nodau rhyngwladol fel y targedau Aichi. Awgrymwyd hefyd y byddai ymgynghoriad manwl â rhanddeiliaid ar gyllun gweithredu ymarferol yn helpu Llywodraeth Cymru.

Cytunodd nifer o ymatebwyr fod angen gwella monitro, anghenion tystiolaeth a rhannu data.

Roedd sylwadau penodol i'n camau gweithredu arfaethedig yn cynnwys:

'Rheoli Adnoddau Naturiol yn Effeithiol'

Roedd ymatebwyr yn ei chael yn anodd nodi o Gynllun Adfer Natur Cymru yn union sut y bydd rheoli adnoddau naturiol yn cyflawni camau gweithredu ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd. Dywedodd rhai fod angen mwy o wybodaeth arnynt.

'Cyflawni Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru'

Dywedodd Grŵp Arbenigol Rhywogaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru fod "*angen creu cyfres gadarn ac ecolegol gydlynol o gyfres parthau cadwraeth morol*". Argymhellodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai'r gweithredu hyn "*gynnwys cyfeiriad at amddiffyn a rheoli ardaloedd morol gwarchoddedig, yn enwedig y rhwydwaith N2K. Yr amcan yw sicrhau bod nodweddion ar safleoedd mewn cyflwr ffafriol.*"

'Hwyluso integreiddio polisïau ar draws sectorau'

Eto, ailadroddodd llawer o ymatebwyr fod angen cryfhau ac ymgorffori Dyletswydd NERC ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil yr Amgylchedd (Cymru).

Dywedodd Grŵp Arbenigol Rhywogaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru fod "*y pwyslais ar integreiddio'n bwysig mewn sectorau ac ar draws sectorau, yn enwedig amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae angen i LIC ymgorffori'r cynllun yng ngweithgareddau adrannol ac ar draws cyrff sector cyhoeddus*".

Mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn cytuno'n gryf â phrif ffrydio bioamrywiaeth ar draws y llywodraeth, gan fynd ymlaen i ddweud bod "*yn rhaid i bob polisi,*

strategaeth ac ymrwymiad llywodraeth gyfrannu at adfer natur fel rhan o strategaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy sy'n berthnasol i holl ystyriaethau'r llywodraeth".

'Ariannu ein partneriaid; a nodi offerynnau ariannol eraill a'u defnyddio'

Dywedodd llawer o ymatebwyr yw nad oes digon o adnoddau ar gyfer bioamrywiaeth o'i chymharu â llinynnau cynaliadwyedd eraill. Argymhellwyd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ffynonellau cyllid eraill yr UE ar gyfer adfer natur.

Awgrymodd ymatebwyr y dylid anelu cyllid at dargedau penodol a rhwymedigaethau rhyngwladol gyda ffrydiau ariannu bioamrywiaeth gwahanol wedi'u cyfuno i leihau gwaith gweinyddol.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at y Gronfa Natur yn eu hymatebion. Er enghraifft, yn ei hymateb, dywedodd Ymddiriedolaeth Natur Gwent fod *"y Gronfa Natur, yn ei diffygion, yn dangos: yr angen am gyllid tymor hir; yr angen am ddigon o amser i bartneriaethau gynllunio a datblygu prosiectau; yr angen i amseru rhyddhau cyllid fel y gellir gwneud gwaith ar lawr gwlad ar adeg briodol o'r flwyddyn; yr angen i ymgysylltu â phartneriaethau sydd eisoes yn bodoli, fel cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol; yr angen i gefnogi gwaith parhaus yn ogystal â phrosiectau newydd; a'r angen i gyllid gael ei ddyrannu'n unol â blaenoriaethau cadwraeth a gwerth am arian yn hytrach na sail ar hap, cyntaf i'r felin".*

Yn eu hymateb i'r cam gweithredu hwn, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch 'gwrthbwysu' bioamrywiaeth. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fod *"angen cyflwyno gwrthbwysu'n lleol i sicrhau nad oes effaith andwyol ar yr adnodd bioamrywiaeth lleol a bod cymunedau lleol yn parhau i allu cael budd o'u bioamrywiaeth leol".* Yn eu hymateb, dywedodd Parciau Cenedlaethol Cymru eu bod *"yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw fath o wrthbwysu bioamrywiaeth, yr ydym yn credu ei fod yn groes i'r dull ecosystemau ac nad yw'n effeithiol yn ecolegol ond ei fod yn hynod niweidiol ar y cyfan".*

Cafwyd hefyd yr argymhelliad y gallai sefydliadau yng Nghymru ddefnyddio mwy o gyllid LIFE Ewropeaidd os oedd digon o allu ac adnoddau i gefnogi ceisiadau.

'Adolygu safleoedd a rhywogaethau dynodedig'

Gofynnodd yr ymatebwyr am eglurder ynghylch beth oedd hyn yn ei olygu ac argymhell y byddai angen i unrhyw adolygiad fod yn addas at y diben. Aeth rhai ymlaen i ddweud nad oedd angen adolygiad sylfaenol ac, yn lle hynny, y byddent yn cefnogi adolygiad sy'n ystyried sut y gellir integreiddio safleoedd a rhywogaethau dynodedig yn y dull rheoli adnoddau naturiol.

'Monitro ac adolygu offerynnau rheoleiddio'

Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu archwiliad o offerynnau rheoleiddio a'u heffeithiau ar fioamrywiaeth. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ei bod *"yn credu y dylai fod dyletswydd ar bob offeryn rheoleiddio i hybu cynaliadwyedd, gan gynnwys gwella bioamrywiaeth".*

'Gwella'r dystiolaeth: ymchwil, monitro ac arolygu'

Roedd cefnogaeth ar gyfer gwella'r dystiolaeth sy'n ymgorffori gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, cyrff anllywodraethol, canolfannau cofnodion lleol, Prosiect Bylchau Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS). Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cael tystiolaeth wyddonol briodol i gefnogi unrhyw gamau gweithredu ar fioamrywiaeth sy'n agored ac yn hygyrch i bawb.

Roedd cefnogaeth ar gyfer canolfannau cofnodion lleol yn cynnal y gronfa ddata bioamrywiaeth fwyaf cynhwysfawr yng Nghymru ac roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gryf y dylid defnyddio'r data hwn cymaint ag y bo modd i lywio unrhyw raglenni ymchwil, monitro neu wyliadwriaeth.

Dywedodd rhai ymatebwyr na chydabuwyd rôl gwirfoddolwyr i gofnodi data ac na ddylid diystyru hyn.

'Annog cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol'

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn siomedig nad oedd y gwaith a wnaed gan awdurdodau lleol a phartneriaethau cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol (CGBLI), wrth gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a chadwraeth natur wedi'i gydnabod yng Nghynllun Adfer Natur Cymru.

Eto, pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd terminoleg fwy priodol. Er enghraifft, dywedodd Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru "os yw cymunedau'n mynd i gael eu cynnwys ac yn llawn brwdfrydedd, mae'n gwbl hanfodol datblygu a hyrwyddo amrywiaeth o derminoleg ac iaith well".

Awgrymwyd hefyd y byddai croeso i raglen gyfathrebu fewnol ddiwygiedig gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd â thargedu cyfathrebu allanol ar lefel strategol genedlaethol. Eto, amlygwyd partneriaethau CGBLI fel arbenigwyr o ran gwneud hyn yn lleol.

Dywedodd Grŵp Arbenigol Rhywogaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru y byddai croeso, ar lefel strategol genedlaethol, i "raglen gyfathrebu fewnol wedi'i hadfywio gan Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â sylwi penodol i gyfathrebu allanol. Cynghorir defnyddio a chefnogi mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli ac mae gan gyrff anllywodraethol a phartneriaethau CGBLI wybodaeth ac arbenigedd sylweddol mewn cyflwyno rhaglenni cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ac mae angen eu cefnogaeth barhaus".

'Darparu trefnadau llywodraethu gwell er budd natur'

Cafwyd cefnogaeth gan bartneriaethau CGBLI ar gyfer adnewyddu Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, gan gynnwys y trefnadau llywodraethu, i ddarparu eglurder a rhywfaint o sicrwydd, a bod angen cymorth ariannol a strategol hefyd.

Awgrymodd Cyngor Sir Fynwy y "dylid ystyried a ellid rhannu rolau mewn perthynas â gweithredu bioamrywiaeth rhwng ALL a chyrff anllywodraethol fel Ymddiriedolaethau Natur fel sy'n digwydd yn Lloegr".

Dyweddodd Parciau Cenedlaethol Cymru y "*gallai llywodraethu a phrynu i mewn fod y ffactor mwyaf hanfodol o ran llywyddiant Cynllun Adfer Natur Cymru a sefydlu'r dull ecosystemau ar draws y llywodraeth*".

Cwestiwn 5 – Pa gamau gweithredu ychwanegol hoffech chi eu gweld?

Roedd nifer o ymatebwyr yn anghymeradwyo'r datganiad canlynol: '*nodi rhywogaethau neu gynefinoedd â blaenoriaeth y mae cymdeithas yn dymuno eu gweld yn elwa'n benodol ar welliannau i'n hecosystemau* (gweler tudalen 26 o'r ddogfen ymgynghori). Er enghraifft, yn ei hymateb, dywedodd Ymddiriedolaeth Natur Vincent y "*byddai'n gochel rhag gadael i gymdeithas ddatgan 'rhywogaethau neu gynefinoedd â blaenoriaeth y mae cymdeithas yn dymuno eu gweld yn elwa'n benodol ar welliannau i'n hecosystemau.*' Dylai'r penderfyniadau hyn gael eu harwain gan grwpiau cadwraeth hyddysg yn bennaf, gydag ymgynghoriad cyhoeddus a gwaith ymwybyddiaeth ehangach fel rhan o'r broses ddichonoldeb a gweithredu". Roedd y Sefydliad Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol Siartredig hefyd yn awgrymu y dylid bod yn ofalus oherwydd "*yn aml mae'r cyhoedd yn ymwybodol o famaliaid carismatig mawr ac adar yn unig ac yn fynych nid ydynt yn deall y manteision mwy sylweddol a gyflwynir gan, er enghraifft, anifeiliaid di-asgwrn-cefn a phlanhigion is*".

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd ariannu Cynllun Adfer Natur Cymru yn gywir a dywedwyd bod angen egluro hyn; awgrymodd rhai fod angen buddsoddi ym Mhartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

Cynigiwyd nifer o gamau gweithredu ychwanegol, gan gynnwys:

- "*Strategaeth monitro gadarn ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd*". (Cymdeithas Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol)
- "*Rheoli safleoedd penodol a rhywogaethau: Mae angen canolbwyntio ar y rhywogaethau a chynefinoedd mwyaf agored i niwed, prin a thameidiog i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth*". (Arbenigwr Rhywogaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru)
- "*Byddai'n ddefnyddiol cael cynllun gweithredu ychwanegol a fydd yn penderfynu sut bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo dull ecosystemau at reoli adnoddau naturiol ar draws adrannau ac i'r cyhoedd a busnesau*". (y Gymdeithas Cadwraeth Forol)
- "*Hoffem weld cam gweithredu sy'n ymwneud â'r holl gyrff cyhoeddus yn adrodd ar eu camau gweithredu mewn perthynas â dyletswydd a sancsiynau NERC lle nad ydynt wedi cyflawni'r ddyletswydd honno'n ddigonol. Byddai cam gweithredu i gefnogi ALI i gyflawni eu dyletswydd bioamrywiaeth yn ddefnyddiol*". (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot)
- "*Byddai NFU Cymru hefyd yn nodi bod angen rhaglen weithredu i ymdrin â rhywogaethau estron goresgynnol a rhywogaethau niweidiol eraill y mae angen rheolaeth arnynt, fel rhedyn a llyisiau'r gingroen*". (NFU Cymru)
- "*Yr ydym yn awgrymu bod yr agenda twf gwyrdd yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer datblygu sgiliau ecolegol yn y gweithlu, gweithio gyda'r byd academiaidd a sefydliadau cyhoeddus, anllywodraethol a phartneriaid yn*

y sector gwirfoddol a phreifat i gynyddu'r gweithlu". (Parciau Cenedlaethol Cymru)

- *"Cynllun amaeth-amgylcheddol swyddogaethol sy'n cyflawni canlyniadau pendant ar gyfer cadwraeth natur ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol erbyn 2015 gyda thargedau wedi'u nodi a'u cyflawni erbyn 2020 (angen elfen fonitro effeithiol sy'n mesur llwyddiant i lefel y cynefinoedd a'r rhywogaethau)". (RSPB Cymru)*

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol a newydd, a'r angen i sicrhau cysylltiadau ag offerynnau statudol allweddol, fel Bil yr Amgylchedd (Cymru) a Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru y *"dylai fod ymrwymiad, ochr yn ochr â deddfwriaeth newydd, (gan gynnwys dyrannu adnoddau angenrheidiol) i weithredu deddfwriaeth bresennol yr amgylchedd naturiol yn llawn"*.

Yn ei hymateb, dywedodd RSPB Cymru fod *"y dirywiad parhaus mewn natur yn fygythiad mor ddifrifol ac o'r fath bwys cyhoeddus bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ymateb cadarnhaol, gan adeiladu ar y camau mae wedi eu cymryd hyd yn hyn. Byddai targed statudol diamwys ar gyfer atal a gwrthdroi'r dirywiad bioamrywiaeth yn sylfaen ymateb effeithiol. Mae'r dull yn dilyn yr un rhesymeg ac egwyddorion a arweiniodd at greu targedau lleihau carbon yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd y DU. Y lle rhesymegol i ymgorffori'r fath darged yw ar wyneb Bil yr Amgylchedd (Cymru)"*.

O ran cynlluniau amaeth-amgylcheddol, pwysleisiodd NFU Cymru *"yr angen am gefnogaeth barhaus ac ymrwymiad tymor hir i gynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at amddiffyn tirweddau, priddoedd, dŵr a bioamrywiaeth gyda mynediad parhaus i BOB ffermwr; ynghyd â chymorth i fuddsoddi yn y technolegau a'r technegau buddiol diweddaraf fel ffermio manylder a chronfeydd storio dros y gaeaf i helpu ffermwyr i reoli eu mewnbynau'n well a sicrhau cyflenwadau hanfodol"*.

Cwestiwn 6 - Sut y gallwn ymgysylltu'n fwy effeithiol â byd busnes i gyflawni ein huchelgais?

Awgrymodd ymatebwyr y dylid gwahodd y gymuned fusnes i gynadleddau cenedlaethol fel Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Dywedodd Cymdeithas Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol ei bod yn *"hanfodol er mwyn sicrhau bod busnesau'n ymddangos yn wyrdd, ond hefyd yn cyfrannu at wireddu uchelgeisiau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth, wrth sicrhau eu bod yn defnyddio'r dystiolaeth orau bosibl i wneud eu penderfyniadau"*. Awgrymodd Ymddiriedolaeth Natur Gwent fod *"angen addysg eang a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y sector busnes, gan ddefnyddio prosiectau enghreifftiol i ddangos manteision gwirioneddol i fusnesau"*.

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai arweiniad strategol i fusnesau gan Lywodraeth Cymru yn cael ei groesawu ac y gallai Llywodraeth Cymru gynnig cyfres o fesurau i fusnesau gan gynnwys cyngor ar faterion amgylcheddol, cymhellion i weithio gyda chyrrff anllywodraethol a chydabyddiaeth o arfer gorau. Yn ei ymateb, dywedodd Tidal Lagoon Power y *"byddai'n annog arddangos dulliau arloesol, cydweithredu a*

phartneriaeth â busnes i gyflawni canlyniadau. Dylid ystyried fframweithiau sy'n galluogi arloesedd a dulliau rhagweithiol neu hyblyg, a symleiddio prosesau hefyd. Gallai gwella dealltwriaeth o safbwynt y sector busnes fod yn ddefnyddiol o ran ymgysylltu".

O ran gorfodi, awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot *"fod angen cymhelliad/cymhellion neu sancsiwn/sancsiynau"* er mwyn annog busnesau i fod yn wyrddach. Dywedodd Parciau Cenedlaethol Cymru fod *"yn rhaid gorfodi rheoleiddio a bod yn rhaid i gosbau fod yn ystyrion, fel arall dim ond cost gwneud busnes ydynt"*.

Mynegodd rhai ymatebwyr eu siom mai prin oedd y cyfeiriad at Glastir neu gynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghynllun Adfer Natur Cymru. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru fod rhai o'i aelodau'n *"teimlo nad oedd ymdrechion presennol ffermwyr i reoli'r tir mewn modd cynaliadwy sensitif yn cael eu cydnabod. Dylid cydnabod nad oes diddordeb gan y rhan fwyaf o ffermwyr yng Nghymru mewn cynhyrchu bwyd yn unig, ar draul popeth arall"*.

Thema fynych oedd bod adnodd mawr a gwerthfawr o wybodaeth ac arbenigedd yn lleol a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gynnwys tiffeddianwyr preifat yn effeithiol.

Cwestiwn 7 - Sut y gallwn gryfhau'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd?

Yn ei hymateb, dywedodd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru fod angen *"gwneud ymrwymadau tymor hwy i brosiectau a phartneriaethau allweddol"*. Soniodd llawer o ymatebwyr am yr angen am fwy o rwydweithio a chyfathrebu cliriach, tryloyw a chynyddol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o gynigion y llywodraeth ac yn gallu mynegi eu barn.

Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fod angen *"cydnabod bod y system CGBLI yn gweithio'n sylfaenol a bod gan y swyddogion ALI rôl hanfodol wrth lywio CGBLI ac fel cyfryngwr o'r CGBLI i Fwrdd Strategaeth [Bioamrywiaeth Cymru]"*. Gan wneud sylwadau ar y lefel leol, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen mai *"dim ond drwy ddarlun cliriach o sut rhoddir camau gweithredu bioamrywiaeth ar waith yn lleol a'r cyfyngiadau sy'n bodoli, y gall cynllun adlewyrchu dull realistig o wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth"*.

Yn ei ymateb, awgrymodd Undeb Amaethwyr Cymru y *"byddai mwy o fanteision amgylcheddol cynaliadwy'n cael eu gwireddu os oedd gan fwy o reolwyr tir y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a phrosesau llunio rhaglen rhwng y llywodraeth a'r diwydiant yn y lle cyntaf"*.

Wrth ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus, dywedodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru ei bod *"yn aml yn anodd gweld a yw cyfraniadau sylweddol [gan Ymddiriedolaethau Natur] ar ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwahaniaeth i'r canlyniad. Felly, i annog mwy o gyfranogiad a brwdfrydedd, dylai Llywodraeth Cymru dynnu sylw at sut mae'r cyfraniadau wedi'u hystyried hyd yn oed os yw hyn drwy sgwrs anffurfiol"*.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar rôl Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC). Dywedodd Grŵp Arbenigol Rhywogaeth PBC y *"bydd PBC cryf ac effeithiol gyda mandad clir yn helpu i gyflwyno cynllun adfer natur"*. Roedd eraill yn awgrymu bod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i hwyluso trafodaeth gyda'r sector cyrff anllywodraethol ac y rhoddir cydnabyddiaeth ac adborth i farn arbenigol ar sut mae hyn wedi llunio penderfyniadau polisi.

Cwestiwn 8 - Sut y gallwn rannu cyllidebau ac edrych ar ganlyniadau integredig?

Dywedodd yr ymatebwyr fod angen i Lywodraeth Cymru roi cymorth ariannol i bartneriaethau presennol yn y tymor canolig i hir a chydweithio â busnesau.

Dywedodd RSPB Cymru fod *"cyllid ac adnoddau'n peri problemau oherwydd y cymysgedd o gostau cyhoeddus a phreifat a'r manteision sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau naturiol. Mae materion anodd sy'n gysylltiedig â phwy sy'n talu a phwy sy'n elwa. Wrth ystyried ffynonellau ariannu ar gyfer cadwraeth natur mewn rheoli adnoddau naturiol, a fydd hyn yn cael ei ystyried yn rhan annatod neu a fydd yn parhau i gael ei weld fel rhywbeth ychwanegol dewisol? A ddylai gael ei ariannu'n breifat neu'n gyhoeddus, neu a ddylai'r trydydd sector dalu amdano?"*

Ar arian grant presennol ac yn y dyfodol, yn ei ymateb, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf y dylai grantiau Llywodraeth Cymru *"ar gyfer pob sector ystyried gofynion bioamrywiaeth (fel NERC) a sicrhau na chosbir ymgeiswyr oherwydd gofynion tymhorol"*. Eiliwyd hyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot: *"Gallai grantiau ar gyfer prosiectau seilwaith, adfywio, iechyd a busnesau gynnwys gofynion bioamrywiaeth"*.

Cwestiwn 9 - Beth arall y dylid ei wneud i osgoi dyblygu ac i gyflawni ein nodau?

Awgrymodd ymatebwyr fod angen cyfathrebu gwell rhwng cyllidwyr a llunwyr polisi, gan gynnwys cyfathrebu llwyddiannau a methiannau fel y gellir dysgu gwersi; cynllunio mwy effeithlon; eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol am bob canlyniad, a; chefnogaeth ar gyfer Canolfannau Cofnodion Lleol a'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth.

Fel gydag ymatebion i gwestiynau eraill, dywedodd llawer o ymatebwyr fod y sector wedi'i ariannu'n wael. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf *"os yw Llywodraeth Cymru yn credu bod bioamrywiaeth yn sail i'r holl sectorau eraill, pam mae'r sector wedi'i ariannu mor wael?"*

Yn ei hymateb i'r cwestiwn hwn, gwnaeth RSPB Cymru sylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth sydd ar y gweill:

"Gall Bil yr Amgylchedd (Cymru) a'r pwerau y bydd y fframwaith deddfwriaethol hwn yn eu sefydlu ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu i gryfhau diogelu a gwella ar gyfer yr amgylchedd naturiol ar draws yr holl sectorau. Rhaid i'r Bil Cynllunio a'r polisi cynllunio, deddfwriaeth ac arferion cysylltiedig ymgorffori atebion creadigol, gan alluogi datblygiadau sy'n hybu cadwraeth natur, yn creu cyfleoedd

adfer cynefinoedd ac yn cynnwys systemau rheoli dŵr yn gynaliadwy a seilwaith gwyrdd. Dylai Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) arfaethedig gynnwys nod penodol i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer galluogi ardaloedd morol gwarchoddedig cynaliadwy ac ecosystem iach sydd, yn eu tro, yn darparu'r sail ar gyfer defnyddio adnoddau morol mewn ffordd gynaliadwy".

Cwestiwn 10 - Beth yw'r ffordd orau inni ddefnyddio'r ganolfan wybodaeth i gasglu a lledaenu data a thystiolaeth?

Croesawodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y syniad o gael canolfan wybodaeth a chytunwyd y gallai fod yn ffordd effeithiol o fonitro a gwerthuso bioamrywiaeth ar draws Cymru. Fodd bynnag, nid oedd rhai'n ymwybodol ohono ac roedd rhai wedi'i ddrysu gyda Chanolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru¹.

Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon bod hyn yn enghraifft o ddyblygu oherwydd bod gan ganolfannau cofnodion lleol system cyflwyno data ar-lein eisoes. Argymhellodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y "*dylai'r ganolfan wybodaeth adeiladu ar waith y canolfannau cofnodion lleol a'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol*".

Cafwyd nifer o argymhellion ac awgrymiadau eraill, gan gynnwys:

- "*Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu fformat safonol ar gyfer casglu a choladu data ar draws Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru*". (Y Gymdeithas Cadwraeth Forol)
- "*Gall mynediad i astudiaethau academiaidd fod yn bwysig iawn, yn enwedig lle mae diffyg canllawiau*". (Cyngor Sir Fynwy)
- "*Ar gyfer y ganolfan wybodaeth, mae'n rhaid bod data wedi'i geogyfeirio a'i ddadgyfuno ar amrywiaeth o ffiniau, gan gynnwys awdurdodau unedol, tirweddau gwarchoddedig, dalgylchoedd a mathau o gynefinoedd eang*". (Parciau Cenedlaethol Cymru)
- "*Byddem yn awgrymu, wrth ddylunio system fwy pwerus, a allai er enghraifft roi mynediad byw i ddata, ei bod yn bwysig cytuno ar y mynediad priodol a pheidio â dibynnu'n llwyr ar gael mynediad i'r data*". (COFNOD)
- "*Dylai rhaglenni gwaith fod yn dymor hir, yn unol â nodau EUBS (h.y. i 2020). Dylai adrodd fod yn rheolaidd, ond mae angen ei integreiddio ag Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, ac â chylchoedd adrodd ar gyfer Ewrop/CAF, er mwyn lleihau dyblygu adrodd. Efallai y bydd y mynychder adrodd yn amrywio'n ôl y nodau a'r camau gweithredu*". (Ymddiriedolaeth Natur Gwent)
- "*Dylai Canolfan Amgylcheddol Cymru weithio mewn partneriaeth â Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r canolfannau cofnodion lleol i lledaenu data a thystiolaeth i bartneriaethau ehangach*". (Ymddiriedolaethau Natur Cymru)

¹ Mae Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru yn helpu i gydlynu ymchwil amgylcheddol yng Nghymru i gryfhau'r dystiolaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru: <http://www.werh.org/>

Cwestiwn 11 - Beth yw'r ffordd orau inni gyfleu cynnydd gyda chyflawni ein huchelgais, er enghraifft, drwy raglen tair blynedd neu bum mlynedd neu gynllun cyflawni blynyddol?

Awgrymodd ymatebwyr y dylai targedau fod yn uchelgeisiol ond yn gyflawnadwy. Gan gydnabod y bydd llawer o'r camau gweithredu'n cael eu cyflwyno yn y tymor canolig i hir, awgrymasant y bydd system adrodd flynyddol yn helpu i sicrhau bod targedau'n cael eu cadw ar y trywydd iawn; gyda rhaglenni pum mlynedd, gellir cynnwys cerrig milltir blynyddol ac adrodd arnynt.

Awgrymodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru y *"dylid sicrhau bod cylchoedd adrodd yn cyd-fynd â chylchoedd adrodd y DU, EUBS a'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (sy'n cysylltu â gweledigaeth dymor hwy) gyda chynllun gweithredu blynyddol ac adroddiad cynnydd ar wahân"*.

Argymhellodd rhai ymatebwyr fod angen cynllun clir a chryno o sut gwireddir yr uchelgais ac y dylai gynnwys targedau Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Realistig sy'n Gysylltiedig ag Amser (SMART) y cytunwyd arnynt gan y rheini a fydd yn eu cyflwyno.

Cwestiwn 12 - Materion Ychwanegol/Sylwadau

Y consensws cyffredinol ymhlith mwyafrif helaeth yr ymatebwyr oedd bod angen i Gynllun Adfer Natur Cymru fod yn fwy uchelgeisiol yn ei dargedau ac yn glir iawn ynghylch sut y mesurir ei effeithiau. Pwysleisiodd ymatebwyr yr hyn a welsant fel y bwlch mawr rhwng datblygu strategaeth Cynllun Adfer Natur Cymru a'r newidiadau gwirioneddol ar lawr gwlad y mae eu hangen. Dywedodd llawer fod angen gwaith brys er mwyn inni gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen. Roedd rhai o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru osod esiampl cyn y gall ddisgwyl i eraill wneud yr un peth.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â rheoli adnoddau naturiol ond yn poeni, neu nid oeddent yn deall, sut y byddai'n cael ei roi ar waith.

Dywedodd llawer o ymatebwyr y dylid defnyddio Bil yr Amgylchedd (Cymru) i gryfhau dyletswydd bioamrywiaeth (adran 40) Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006.

4. Y camau nesaf

Wedi darllen a dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn cydnabod bod llawer o themâu allweddol sy'n codi dro ar ôl tro, fel yr amlinellir yn yr adran negeseuon allweddol uchod, gan gynnwys y galw am ragor o eglurhad ar bolisi a chamau gweithredu bioamrywiaeth a sut, er enghraifft, y bydd hyn yn cael ei weithredu fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi dull integredig ar waith at reoli adnoddau naturiol.

Mae'n bwysig nodi, ar adeg yr ymgynghoriad hwn, fod gwybodaeth benodol ar gyrnigion rheoli adnoddau naturiol yn gyfyngedig i'r hyn a geir yn ymgynghoriadau papur gwyrdd a gwyn y llywodraeth. Ers hynny, mae darpariaethau arfaethedig manwl wedi'u pennu ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) a chyflwynwyd dogfennau ategol i'r Cynulliad ym mis Mai.

Wrth inni symud ymlaen i fynd i'r afael â llawer o'r materion a amlygwyd gan yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru drwy nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen i gynllunio gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig; mynd i'r afael â bylchau tystiolaeth; blaenoriaethau ar gyfer adfer cynefinoedd; cynnwys y cyhoedd, a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cyflwyno.

Rydym wedi bod yn glir yn gyson ein bod yn ymrwymedig i symud y tu hwnt i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru yn unig drwy sefydlu dull newydd sy'n helpu i wella bioamrywiaeth yng nghyd-destun y canlynol;

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i rym ar 29 Ebrill a bydd yn berthnasol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid inni, wrth fabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy'n llawn, gydnabod yr angen i fynd i'r afael â thueddiadau tymor hir ac achosion sylfaenol yr heriau strategol a wynebwn. Dyma pam mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys cadernid ecosystemau fel un o'r saith nod llesiant. – 'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).'

Bil yr Amgylchedd (Cymru)

Mae cydnabyddiaeth ryngwladol o'r angen am ddull mwy cydgysylltiedig tuag at reoli ein hadnoddau naturiol, gan gydnabod bod ein dŵr, ein tir a'n haer yn gwbl gydgysylltiedig a bod ein cymdeithas, ein heconomi a'n hamgylchedd yn gyd-ddibynnol. Bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn ceisio sefydlu deddfwriaeth sy'n ymgorffori egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol drwy fabwysiadu dull ecosystemau er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae'n ceisio mynd i'r afael â thueddiadau tymor hir ac achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth drwy roi sylw i'r rhain mewn dulliau system gyfan sy'n

cyflwyno buddiannau parhaus i gymunedau a'r economi yn ogystal ag ar gyfer yr amgylchedd a natur. Mae'r dull hwn yn cael ei gydnabod fwyfwy fel arfer gorau yn rhyngwladol.

Mae'r Bil hefyd yn disodli'r ddyletswydd bresennol yn adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 mewn perthynas â Chymru, gyda dyletswydd gryfach ar awdurdodau cyhoeddus i geisio 'cynnal a gwella' bioamrywiaeth.

Mae datganiad Polisi Adnoddau Naturiol yn cael ei baratoi, a fydd yn nodi'r camau blaenoriaeth y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth drwy reoli adnoddau naturiol yn integredig ac a fydd cefnogi'r cynllun adfer natur.

Erbyn diwedd 2015 byddwn yn cyhoeddi:

- Datganiad sefyllfa ar gyfer Bioamrywiaeth yng Nghymru, gan ddatgan ein sefyllfa bresennol o ran ein hymrwymiaid, adnoddau a pholisi bioamrywiaeth a'n camau gweithredu presennol ac arfaethedig i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru. Bydd y datganiad yn egluro'r berthynas rhwng y cynllun adfer natur a pholisïau a rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Bil yr Amgylchedd (Cymru), a nodi sut rhoddir sylw i dargedau bioamrywiaeth Aichi yng Nghymru. Bydd y datganiad hwn yn rhan strategol o Gynllun Adfer Natur Cymru.
- Cynllun gweithredu, rhaglennu camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer adfer natur yn y meysydd canlynol i ddechrau:
 - gwella'n tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro;
 - nodi blaenoriaethau ar gyfer adfer cynefinoedd;
 - cynyddu ymgysylltiad a chefnogaeth i fioamrywiaeth brif ffrwd drwy gydol prosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel;
 - nodi cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth o dan yr CDG a gweithio gyda strategaeth amaethyddiaeth
 - sicrhau bod trefniadau llywodraethu da ar gyfer cyflwyno ym maes datblygu polisïau.

Bydd y cynllun gweithredu'n rhan o gyflwyno Cynllun Adfer Natur Cymru.

Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr

Unigolion

- Alec Dauncey
- Anne Brenchley
- Annie Halliwell
- Anhysbys (x 2)
- Barbara Symons
- Barry Lynes
- Betty Lee
- Blaise Bullimore
- Ceri Thomas
- Chris Taylor
- Christine Matthews
- Claire Baker
- David Griffiths
- Dawn Thomas
- Delcie Simkin
- Denbeigh Vaughan
- Dick Finch
- Doug Bennett
- Elinor Evans
- Fiona Openshaw
- Frances Cattanach
- G. Wattle
- Godfrey Bradshaw
- Gordon Parfett
- Hilary Wilson
- Hugo Burke
- Ian Morris
- Ian Palmer
- Jim Davies
- John a Gillian Cooke
- John Bowers
- John Bratton
- John Goodwin
- John Hubert
- Jonathan Stone
- K.J. a R.H. Regelous
- Kate Gibbs

- Ken Maurice
- Kenneth Simkin
- Louise Gorrigan
- Malcolm Appleton
- Mick Green
- Mr a Mrs Smith
- Mr R. W. Dennison
- Mrs L. Jones
- Pamela Hymphries
- Pat Armstrong
- Paul King
- Rachel Tindall
- Ray Chesters
- Roger Pawling
- Sally Hall
- Simon Bazeley
- Tessa Pearson
- Verity Picken
- Veronica Haines
- Wendy Scrase

Sector Cyhoeddus

- Cymdeithas Grwpiau RIGS Cymru
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Ystad y Goron
- Pwyllgor Cadwraeth Natur ar y Cyd
- Cyngor Sir Fynwy
- Parciau Cenedlaethol Cymru
- Natural England
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Swyddogion Bioamrywiaeth Gogledd Cymru
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Rhondda Cynon Taf
- Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Prifysgol Dundee

Sector preifat

- Capita
- Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd
- Dŵr Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru
- NFU Cymru
- RWE Generation UK plc
- Tidal Lagoon Power

Trydydd Sector

- Cynghrair Parciau Cenedlaethol Cymru
- Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid
- Cymdeithas Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol
- Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
- Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth - Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth - Gorllewin Cymru
- Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
- Cymdeithas Gwas y Neidr Prydain
- British Wildlife Management
- Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn
- Sefydliad Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol Siartredig
- Cofnod - Canolfan Cofnodion Lleol Gogledd Cymru
- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
- Coed Cadw
- Coed Cymru
- Cymdeithas Edward Llwyd
- Ymddiriedolaeth Cwm Elan
- Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt
- Ymddiriedolaeth Natur Gwent
- Llais y Goedwig
- Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
- Sefydliad Cenedlaethol y Ciperiaid
- Amgueddfa Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Plantlife Cymru (ar ran Plantlife International)

- Ystad Castell Powis
- RSPB Gorllewin Morgannwg
- Pwyllgor Ymgynghorol Cymru RSPB
- RSPB Cymru
- Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru
- Cymdeithas Eryri
- Ymddiriedolaeth Natur Vincent
- Cymdeithas Adaregol Cymru
- Cadwraeth Morfilod a Dolffiniaid
- Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
- Ymddiriedolaethau Natur Cymru
- Panel Cyngori ar Strategaeth Coetir

Partneriaethau Bioamrywiaeth

- Partneriaeth Bioamrywiaeth Blaenau Gwent
- Partneriaeth Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr
- Partneriaeth Bioamrywiaeth Caerdydd
- Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
- Partneriaeth Bioamrywiaeth Casnewydd
- Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd-ddwyrain Cymru
- Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro
- Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir Iseldir Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
- Arbenigwr Rhywogaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
- Grŵp Ecosystem Ucheldir Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

ISBN

- | | |
|-------------------|--|
| 978-1-4734-2272-8 | Nature Recovery Plan - Consultation Responses (Saesneg ar-lein) |
| 978-1-4734-2273-5 | Cynllun Adfer Natur - Ymatebion i'r Ymgynghoriad (Cymraeg ar-lein) |